UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
www.ucac.cymru

**Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y cymwysterau arfaethedig yn cefnogi ysgolion i ddarparu’r Cwricwlwm i Gymru?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Ymddengys fod camau wedi eu cymryd, er mwyn ceisio cefnogi ysgolion i ddarparu’r Cwricwlwm i Gymru, ond mae’n anodd gweld yn glir a yw’r cynigion hyn wedi llwyddo i sicrhau datblygiad o’r gwaith sydd wedi ei wneud mewn ysgolion cynradd ac ym mlynyddoedd cynnar ysgolion uwchradd.

---

**Yn gyffredinol, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y cymwysterau arfaethedig yn helpu dysgwyr i symud ymlaen mewn bywyd, dysgu a gwaith?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Mae'n ymddangos fod y cynllun arfaethedig yn anelu at gynnig cymorth i rai dysgwyr symud ymlaen mewn bywyd, dysgu a gwaith, ond mae'n anodd gweld a fydd y cynnig hwn fel y mae yn rhoi gwell cyfle i ddysgwyr symud ymlaen mewn bywyd, dysgu a gwaith. Un broblem fawr sydd ynghlwm â'r cynigion hyd y gwelwn ni yw eu bod mor ddarniog ac eang ac mae'n anodd gweld sut y bydd rhai ysgolion â'r capasiti i gynnig y fath amrywiaeth. Rydym yn ofni y bydd yr arlwy a gynigir i ddisgyblion yn amrwyio'n fawr o le i le.

---

**Beth (os oes unrhyw beth) ydych chi'n ei hoffi am ein cynigion?**

Mae'r nod o gynnig amrywiaeth yn un i'w chanmol, ond er bod cynnig amrywiaeth yn beth cadarnhaol, mae'n bwysig hefyd ei bod yn realistig.

---

**Beth (os oes unrhyw beth) nad ydych chi'n ei hoffi am ein cynigion?**

Ymddengys fod y cynnig yn gymhleth ac yn ddarniog iawn. Nid ydym yn teimlo y bydd hi’n hawdd i ysgolion llai o faint gynnig yr amrywiaeth priodol a bydd hi’n dipyn o her iddynt lunio’r amserlen. Oherwydd fod y cynnig yn ddarniog, mae perygl i'r cyrsiau fod yn 'arwynebol'.

---

**Oes unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano ynglŷn â'n cynigion cyffredinol?**

A oes ymgais wedi ei wneud i lunio amserlenni posibl a rhoi amcan o gost y cynigion arfaethedig? Sut y bydd Y Cynnig Llawn yn cael ei amserlennu, o gofio y bydd y pynciau craidd i gyd yn ddyfarniadau dwbl i rai disgyblion. Ymddengys y bydd y pynciau craidd yn llenwi'r amserlen ac na fydd llawer o le i lawer mwy na hynny.

---

**Ar y cyfan, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno [â'n cynnig ar gyfer cymhwyster Prosiect Sgiliau Cyfannol]?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Nodir y canlynol am y prosiect fel y mae ar hyn o bryd - 'Diben y Project Unigol yw meithrin sgiliau dysgwyr, drwy ymgymryd â gweithgaredd ymchwil mewn maes sydd o ddiddordeb personol iddyn nhw neu sy'n adlewyrchu dyheadau ar gyfer y dyfodol o ran addysg neu yrfa. Yn ystod y Project Unigol, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes Llythrennedd Ddigidol, Cynllunio a Threfnu a Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.' . Erbyn hyn mae'r sgiliau 'Creadigrwydd ac Arloesedd' wedi eu hychwanegu a'r sgil 'Llythrennedd Ddigidol' wedi ei dileu, er bod disgrifiad o ofynion y prosiect yn nodi y gallai'r cymhwyster roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol: Datblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol' Nid ydym yn siŵr sut y gall y prosiect sgiliau cyfannol fesur 'Creadigrwydd ac Arloesedd'. Er bod y newidiadau uchod wedi eu nodi, nid yw'n gwbl amlwg beth sy'n newydd o ran y prosiect. Teimlwn fod angen mwy o fanylion ynghylch y newidiadau sydd wedi arwain at newid y geiriad.

---

**Oes unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano ynglŷn â'r cymhwyster Prosiect Sgiliau Cyfannol?**

Beth sy'n wahanol rhwng y prosiect hwn a'r hen brosiect? Mae angen bod yn gliriach, er mwyn gallu egluro sut mae'r prosiect yn galluogi dysgwyr i feithrin 'Creadigrwydd ac Arloesedd'. A yw'r disgwyliadau yn gwbl wahanol ar gyfer y prosiect erbyn hyn? Pam mae Llythrennedd Digidol wedi ei ddileu? A oes yna sgiliau eraill y gellid eu meithrin e.e. defnydd deallus o Ddeallusrwydd Artiffisial?

---

**Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno [â'n cynnig ar gyfer cymwysterau Sgiliau Bywyd]?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Rydym yn cytuno bod nifer o'r sgiliau yn rhai pwysig ac yn rhai y mae angen eu meithrin, ond mae'n rhyfedd ac yn drist meddwl bod yn rhaid cael 'asesiad' ar gyfer sgiliau a ddylai fod yn sgiliau fyddai'n

cael eu dysgu o fewn cyd-destun ac nid 'ar wahân'. A oes wir angen cyflwyno'r unedau hyn yn unedau ffurfiol? Mae'n rhaid cofio fod y cwricwlwm yn llawn fel y mae. Oni fyddai'n well pe bai nifer o'r sgiliau hyn yn cael eu hasesu o fewn pynciau eraill?

---

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr o unedau/meysydd pwnc ar gyfer y cymwysterau Sgiliau Bywyd?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Yr hyn sy'n amlygu ei hun ar yr olwg gyntaf yw fod yr hyn a gynigir yn rhy ddarniog a bod gormod o 'unedau' posibl yma. Teimlwn fod nifer o'r unedau'n rhy 'haniaethol'. Mae'n creu syniad 'ffals' y bydd dewis eang. A fydd gan ysgolion y capasiti i gynnig yr ystod hwn o bynciau? Bydd yn heriol iawn i ysgolion bach ac i ysgolion dwyieithog sy'n gorfod cynnig darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg i gynnig y fath ehangder pynciau. Cofier beth oedd nodau ac amcanion yr hen gymhwyster: 'sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn berthnasol ac wedi'i osod o fewn cyd-destunau bywyd go iawn at ddibenion bywyd go iawn' Nodir y bydd Bagloriaeth Cymru yn 'cynyddu hyder ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio a defnyddio'r sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau a phwrpasau ystyrlon a 'bywyd go iawn'. Yn y fanyleb o dan 4.4 Dylunio a Chymeradwyo Briffiau'r Heriau, nodir: 'Rhaid i'r Briffiau Heriau anelu at roi profiadau a chyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau yng nghyd-destun dibenion bywyd go iawn a chyd-destunau bywyd go iawn.' Mae'n rhaid gofyn y cwestiwn a yw'r cynigion arfaethedig yn cynnig mwy na'r hyn sydd eisoes yn bodoli.

---

**Oes unrhyw unedau/meysydd pwnc arall y dylem eu hychwanegu?**

Nac oes

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Dim sylw

---

**Oes unrhyw beth arall sydd angen i ni feddwl amdano ynglŷn â chymwysterau Sgiliau Bywyd?**

A oes rhai o'r sgiliau yma y mae modd eu meithrin fel rhan o gymwysterau eraill, yn hytrach na gorfod eu hasesu 'ar wahân'?

---

**Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno [â'n cynnig ar gyfer cymwysterau Sgiliau Gwaith]?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Mae rhai unedau gwerthfawr, ond ymddengys fod unedau eraill braidd yn 'niwlog'. Tybed a fyddai'n gweddu'n well i ddysgu rhai o'r elfennau hyn o fewn cyd-destun yn hytrach nag fel unedau ar wahân?

---

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr o unedau/meysydd pwnc ar gyfer y cymwysterau Sgiliau Gwaith?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Mae rhai unedau gwerthfawr, ond ymddengys fod unedau eraill braidd yn 'niwlog'. Tybed a fyddai'n gweddu'n well i ddysgu rhai o'r elfennau hyn o fewn cyd-destun yn hytrach nag fel unedau ar wahân?

---

**Oes unrhyw unedau/meysydd pwnc arall y dylem eu hychwanegu?**

Ddim yn siŵr

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Beth am uned ar ddefnydd 'aeddfed' o Ddeallusrwydd Artiffisial. Sut mae defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn modd cywir ac egwyddorol o fewn y byd gwaith.

---

**Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno [â'n cynnig Cyfres Sgiliau]() - sy'n cynnwys cymwysterau Sgiliau Bywyd, cymwysterau Sgiliau Gwaith a'r Prosiect Sgiliau Cyfannol?**

Anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Mae'r cynnig arfaethedig yn cyflwyno nifer helaeth o sgiliau posibl, gan nodi y byddai gan ddisgyblion ddewislen helaeth. Tybed, fodd bynnag, a oes ystyriaeth wedi ei rhoi i faterion ymarferol

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
www.ucac.cymru

amserlennu, staffio ac ariannu cynnig o'r fath? Tybed a oes rhywun wedi meddwl am yr heriau penodol sy'n wynebu ysgolion cyfrwng Cymraeg a hefyd ysgolion dwyieithog? Bydd yn rhaid i ysgolion dwyieithog nid yn unig ystyried sut mae ariannu a staffio cynnig o'r fath ond sut mae ariannu a staffio'r cyrsiau niferus hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Beth fydd gwerth pob un o'r cyrsiau arfaethedig hyn? A fydd gan ysgolion y capasiti i allu cynnig dewislen helaeth – rhaid cofio bod rhai o'n hysgolion yn ysgolion bach sy'n gorfod cynnig darpariaeth ddwyieithog. O gofio pwysigrwydd cyfleoedd cyfartal, ni ddylid amddifadu'r disgyblion hynny o gyfleoedd. Gallai'r hyn a gynigir arwain at ymdriniaeth llai ffafriol i rai disgyblion.

---

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r Gyfres Sgiliau ddisodli'r Dystysgrif Her Sgiliau bresennol?**

Anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Ymddengys yn rhyfedd fod y Dystysgrif Her Sgiliau wedi ei disodli gan y cynigion newydd am y rhesymau canlynol: Mae Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019 yn gadarnhaol iawn am y Dystysgrif Her Sgiliau. 'Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau hefyd yn darparu'r sylfeini i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ehangach sy'n cyd-fynd â' phedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, a gaiff ei gyflwyno i'w addysgu o 2022.' Mae'n wir bod cyfeiriad yn y ddogfen hon at yr angen i ddiwygio'r cymhwyster, er mwyn ei wneud yn fwy hylaw ac yn gliriach ond nid oes sôn am yr angen i ddileu'r cymhwyster. Mae'n amlwg bod y Dystysgrif Her yn cynnig cyfleoedd i feithrin sigiliau cyflogadwyedd a sgiliau bywyd a fydd yn hynod o berthnasol i ddysgwyr ar gyfer byd gwaith neu addysg uwch. Neges adroddiad Wavehill yw 'the principles of the Welsh Bacc and SCC are strong and relevant, and …. learners are developing skills that are beneficial to their future. As a result, we strongly advise that the SCC is retained and revised to build on its strength and to reduce its complexity.' Noder y geiriau 'retained and revised'. Pam felly y gwnaed y penderfyniad i'w disodli? Sut y gellir cyfiawnhau cam o'r fath? Rhaid cofio hefyd bod ysgolion wedi gwneud newidiadau i'w strwythurau staffio, er mwyn cynnig y ddarpariaeth orau i ddysgwyr ac er mwyn sicrhau bod y Dystysgrif Her Sgiliau'n cael y gydnabyddiaeth briodol. Mae'n werth cofio hefyd mai yn Haf 2017 y dyfarnwyd y Dystysgrif Her Sgiliau am y tro cyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4. Dim ond tair carfan ddilynodd y cymwhyster, felly, cyn bod Covid-19 yn trawsnewid ein bywydau. Mae hi'n ddyddiau cynnar ar y cymhwyster ac mae angen amser i sicrhau ei fod yn cael ei wreiddio ac amser i wneud 'diwygiadau' ac i 'fireinio', ond mae'n rhy fuan i'w ddileu. Mae ysgolion wedi wynebu newidiadau di-rif yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac rydym o'r farn bod dileu'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn creu ansicrwydd diangen. Bydd hefyd yn gofyn am fuddsoddiad o ran amser ac arian mewn cyfnod pan fo arian yn brin a llwyth gwaith athrawon yn cynyddu yn fawr. Mae arian ac amser yn adnoddau prin iawn yn ein hysgolion. Byddai rhai ysgolion yn wynebu ailstrwythuro pellach a byddai athrawon sydd wedi ymroi'n gydywbodol ac yn egnïol i gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau yn teimlo bod eu swyddi dan fygythiad ac yn teimlo'n chwerw ac yn ddigalon. Gweithiodd ysgolion yn galed a chydwybodol i argyhoeddi rhanddeiliaid o werth y cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau ac erbyn hyn mae'r rhanddeiliaid yn gyffredinol wedi dod i gydnabod ei gwerth. Mae morâl staff yn isel ar hyn o bryd ac mae'n frwydr barhaus i recriwtio a chadw staff. Os yw staff yn wynebu newid ar ôl newid sy'n golygu llwyth gwaith cynyddol ac ansicrwydd parhaus, bydd mwy a mwy yn gadael y proffesiwn a bydd llai a llai yn dewis dysgu fel gyrfa. Mae gan y proffesiwn ddigon o heriau i fynd i'r afael â nhw fel y mae – nid oes angen creu mwy ohonynt. Rydym yn clywed yn

gyson mai lles dysgwyr ddylai fod wrth wraidd unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â'u haddysg ac mae hynny'n ddigon teg a chlodwiw. A yw'r newidiadau arfaethedig yn fwy llesol i ddisgyblion? Rydym yn cydnabod bod angen diwygio'r drefn bresennol, ond nid yw diwygio yn gyfystyr â dileu. Credwn mai'r hyn y dylid ei wneud yw edrych o'r newydd ar y Dystysgrif Her Sgiliau a'i mireinio, er enghraifft, drwy leihau'r nifer o 'heriau' a sicrhau nad oes cymaint o ailadrodd o ran y sgiliau a asesir o fewn yr heriau. Dylid cofio mai un o'r argymhellion (Argymhelliad 6a) adolygiad Wavehill yn 'A review of the design and assessment model of the SCC and its place within the Welsh Bacc' yw: 'Reviewing the need for three Challenges with overlapping Learning Objectives, alongside the Individual Project. If appropriate, identify where the number of Challenges could be replaced by analysing the synergies between them. For example, Qualification Wales could consider: i. Removing the Community Challenge and reallocating the skills 'Planning and Organisation' and 'Personal Effectiveness' to the Enterprise and Employability Challenge where they clearly support the learning aims; ii. The extent to which the aims of the Challenges and the essential employability skills could be included and assessed within the Individual Project.' O ran lles y disgyblion hefyd, mae'r Dystysgrif Her Sgiliau ar y lefel hon yn baratoad gwych ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau ar y lefel uwch. Mae gwaith mireinio eisoes wedi ei wneud i'r cymhwyster hwnnw, pam felly na ellid fod wedi edrych ar y lefel hon yn yr un modd, gan wneud diwygiadau yn hytrach na gwneud newidiadau pellgyrhaeddol iawn?

---

**Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno [â'n cynnig ar gyfer cymwysterau Cyn-alwedigaethol]?**

Anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Beth yn union a olygir wrth 'cyn-alwedigaethol'? Onid yw cyrsiau naill ai'n rhai academaidd neu'n rhai galwedigaethol?

---

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr o feysydd pwnc ar gyfer y cymwysterau Cyn-alwedigaethol?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Ar y cyfan yn ddigon hapus gyda'r ystod, ond mae angen gwneud yn siŵr bod y cyrsiau TGAU Gofal Plant a Pheirianneg a Thechnoleg Gwybodaeth yn ddigon ymarferol. Nid yw'r pynciau hyn yn cael eu cynnig ar Lefel 2, gan fod cwrs TGAU yn bodoli yn y pynciau hyn. Mae'n bwysig ystyried y dulliau asesu'n ofalus – croesewir y defnydd o dechnoleg ddigidol, asesiadau di-arholiad, ond mae'n rhaid sicrhau a) nad yw'n golygu baich ychwanegol i athrawon b) bod gan ysgolion y seilwaith digidol angenrheidiol c) eglurder buan o natur yr asesu digidol

**Oes unrhyw bynciau eraill y dylem eu hychwanegu at y rhestr hon?**

Ddim yn siŵr

**Eglurwch eich ateb isod**

Dim ateb

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gael graddfa raddio syml, gyffredin ar gyfer cymwysterau Cyn-alwedigaethol, megis pasio/teilyngdod/rhagoriaeth?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Eglurwch eich ateb isod**

Ar y naill law, mae'r dull asesu yn sicrhau gwahaniaeth rhwng pynciau cynalwedigaethol a TGAU ac yn ei gwneud hi'n haws i gyflogwyr i wahaniaethu rhwng TGAU a phynciau galwedigaethol. Ar y llaw arall, a yw disgyblion sy'n dilyn y cyrsiau hyn yn mynd i ystyried eu cyrsiau hwy'n israddol, gan nad ydynt yn cael eu graddio yn yr un modd? A fyddai'n well syniad i raddio'n rhifol, yn hytrach na graddio yn ôl llythyren, er mwyn sicrhau ymdriniaeth deg ond eto er mwyn sicrhau gwahaniaeth rhwng y cyn-alwedigaethol a'r TGAU.

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig y dylai cymwysterau Cyn-alwedigaethol gymryd amser tebyg i addysgu â chymwysterau TGAU (tua 120 o oriau dysgu dan arweiniad)?**

Cytuno

**Eglurwch eich ateb isod**

Dyna fydd yn llenwi amserlen rhai disgyblion 16 oed a dylai'r cymwysterau hyn fod â'r un statws â chymwysterau eraill y bydd disgyblion 16 oed yn eu dilyn.

**Oes unrhyw beth arall sydd angen i ni feddwl amdano ynglŷn â chymwysterau Cyn-alwedigaethol?**

Mae'n bwysig sicrhau eu bod yn ddigon ymarferol eu natur ac nad yw disgyblion yn cael eu rhwystro rhag llwyddo gan waith papur beichus. Mae'n bwysig hefyd fod y cyrsiau hyn yn gyrsiau y gellir eu cyflwyno'n hwylus mewn ysgolion ac nad oes angen cyfarpar drudfawr ar eu cyfer.

**Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno [â'n cynnig ar gyfer cymwysterau Sylfaen]?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Ymddengys fod nifer o opsiynau posibl – cynalwedigaethol, TGAU, cwrs amgen. Ni fydd ysgolion bach yn gallu cynnig yr ystod eang hwn. Pam mae pethau'n cael eu cynnig fesul Maes Dysgu a Phrofiad ar y lefel hon, ond nid felly ar lefelau eraill?

---

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr o feysydd pwnc ar gyfer cymwysterau Sylfaen?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

A fyddai'n gwneud mwy o synnwyr pe bai'r cymwysterau Sylfaen Gwyddoniaeth wedi'u cyfyngu i un cwrs, sef Gwyddoniaeth Gyfunol a bod Dylunio a Thechnoleg a Thechnoleg Ddigidol yn cael eu rhoi o fewn y cyrsiau cynalwedigaethol. Byddai modd i'r cwrs Gwyddoniaeth fod yn un 'eang a hyblyg', er mwyn bod yr un fath â'r cyrsiau eraill.

---

**Oes unrhyw bynciau eraill y dylem eu hychwanegu at y rhestr hon?**

Ddim yn siŵr

---

**Ydych chi'n hapus i ateb ychydig mwy o gwestiynau am gymwysterau Sylfaen posib mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Iechyd a Lles ac i ddysgwyr sy'n defnyddio Saesneg, neu Gymraeg, fel iaith ychwanegol?**

Ydw

---

**Rydym yn cynnig creu cymhwyster Sylfaen yn y Dyniaethau, yn ogystal ag unedau o fewn y cymwysterau Sgiliau Bywyd mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn ogystal â'r rhain, ydych chi'n ystyried bod angen cymhwyster penodol mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?**

Ddim yn siŵr

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Gellid cynnwys 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' naill ai o fewn Dyniaethau neu o fewn Sgiliau Bywyd

---

**Yn y maes Iechyd a Lles, rydym yn bwriadu creu ystod eang o unedau yn y Gyfres Sgiliau, yn ogystal â meysydd pwnc Cyn-alwedigaethol perthnasol. Felly, nid ydym yn bwriadu datblygu cymhwyster Sylfaen penodol mewn Iechyd a Lles. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

---

**Eglurwch eich ateb isod**

Mae'n bwysig bod disgyblion o bob gallu yn gallu cael mynediad at gwrs Iechyd a Lles. Mae'n bwysig bod y cyrsiau a gynigir yn addas ar gyfer yr holl ystod gallu ac yn gyrsiau ymarferol. Os yw'r cyrsiau sy'n bodoli yn ateb y gofyn hwnnw, yna gellir derbyn y penderfyniad uchod.

---

**A ddylen ni greu cymwysterau Sylfaen ar wahân ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg, neu'r Saesneg, fel iaith ychwanegol?**

Ddim yn siŵr

---

**A ydych chi'n hapus i ateb ychydig mwy o gwestiynau ynghylch effeithiau posib cydraddoldeb, rheoleiddio, y Gymraeg neu gost y cynigion hyn?**

Ydw

---

**Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig* sy'n deillio o'r cynigion hyn nad ydym wedi'u hadnabod?**

***Oedran, anabledd, adlinio rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol**

Nac ydw

---

**Ydych chi'n gwybod am unrhyw effeithiau ar y Gymraeg sydd yn deillio o'r cynigion hyn nad ydym wedi eu hadnabod?**

Ydw

---

**Os ydych, eglurwch eich ateb**

Mae cynnwys cymaint o 'ddewisiadau' o ran sgiliau bywyd a sgiliau gwaith yn mynd i fod yn her fawr i ysgolion sy'n gorfod darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

---

**Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau rheoleiddio sydd yn deillio o'r cynigion hyn nad ydym wedi'u nodi?**

Ddim yn siŵr

---

**A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei hystyried wrth werthuso costau a buddion y cynigion?**

Fel y nodwyd uchod, mae cynnwys cymaint o 'ddewisiadau' o ran sgiliau bywyd a sgiliau gwaith yn mynd i fod yn her fawr i ysgolion sy'n gorfod darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd angen buddsoddiad eang o ran hyfforddi, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd

---

**Ydych chi'n gweithio mewn lleoliad addysgol lle mae cymwysterau'n cael eu darparu i ddysgwyr 14-16 oed?**

Na

---

**Ydych chi'n gweithio i gorff dyfarnu?**

Na